13/03/23

Bethan Lloyd
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Tîm Sain Ffagan yn paratoi ar gyfer penwythnos hollbwysig yr amgueddfa

Am y tro cyntaf ers tair blynedd, mae'r tîm yn Sain Ffagan yn paratoi i groesawu hyd at 12,000 o bobl i un o'r digwyddiadau pwysicaf yng nghalendar yr amgueddfa – yr Ŵyl Fwyd.

Ym mhennod pedwar o'r gyfres **Sain Ffagan** ar S4C, sy'n rhoi cip ar rai o gorneli cudd Amgueddfa Werin Cymru, cawn weld y paratoadau munud olaf ar gyfer y digwyddiad.

Ffion Rhisiart, Swyddog Digwyddiadau Sain Ffagan, sydd â'r dasg o gydlynu'r trefniadau wrth i 65 o stondinau bwyd a 15 stondin grefft baratoi i groesawu'r ymwelwyr.

Mae hi wedi bod yn wythnos brysur i'r tîm ffermio hefyd. Yn ogystal â thorri llwyni a gwair, mae Brian yn gyfrifol am drefnu un o'r digwyddiadau i blant.

"Pedair buwch ar ben trelar – 'so chi'n gweld hwnna'n aml!" meddai Brian, wrth fynd â'r "gwartheg" i'w beudy newydd. Mae'r "gwartheg" yn cael eu llenwi gyda dŵr a bwced oddi tanyn nhw fel bod plant yn gallu troi eu llaw at odro.

Yn ogystal â godro, mae llu o weithgareddau i'w trio ar draws y safle gan gynnwys defnyddio bôn braich i wneud menyn, dysgu sgiliau syrcas, ac arddangosfa hen dractorau.

Gyda'r haul yn gwenu, mae miloedd yn heidio i'r Ŵyl Fwyd.

"Chi byth yn gwybod, pan chi'n agor y drysau, faint o bobl sy'n mynd i ddod felly mae'n hyfryd gweld cymaint yn dod yma," meddai Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus Sain Ffagan.

Yn y bennod yma hefyd cawn weld sut mae'r gwaith yn dod yn ei flaen ar Westy'r Vulcan, hen dafarn adnabyddus o ardal ddiwydiannol yng Nghaerdydd. Cafodd ei chofrestru fel tafarn yn 1853 a'i dymchwel yn 2012.

Fe ddechreuodd y gwaith o ailadeiladu'r dafarn yn Sain Ffagan yn 2019 a'r gobaith yw y bydd wedi gorffen erbyn y gwanwyn y flwyddyn nesaf. Mae'r gweithwyr y tro yma yn manteisio ar y tywydd sych i roi llechi newydd o Chwarel Penrhyn ar y to.

Bydd Dafydd Wiliam, y Prif Guradur Adeiladau, hefyd yn ymweld â Choleg Celf Abertawe, sydd wedi bod yn trwsio ffenestri gwydr lliw y Vulcan. Y technegydd gwydr Zoe Bolton sydd wedi cael y dasg o lunio logo ar gyfer y bragdy William Walter Nell o 1915 i'w roi ar y ffenestri, i gymryd lle logo Brains.

"Mae'n gyffrous gweld y ffenestri," meddai Dafydd Wiliam. "Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod y gwydr newydd mymryn yn wahanol i'r gwydr gwreiddiol fel bod arbenigwyr y dyfodol yn gallu gweld yn glir y gwaith ydan ni wedi gwneud, a bod pobl yn gallu darllen hanes yr adeilad."

Hefyd yn y bennod hon, fe fydd y delynores Rhiain Bebb yn ymweld â chartref ei hen daid, Ffermdy Abernodwydd, sy'n un o'r hanner cant o adeiladau hanesyddol yn Sain Ffagan.

"Dw i wedi byw yn Abernodwydd ac mae dŵad yma yn rhoi rhyw wefr i mi," meddai Rhiain, sy'n talu teyrnged i'w chyndeidiau drwy roi enw Abernodwydd ar un o'i halawon.

Mae hi hefyd wedi cyfansoddi penillion traddodiadol, neu dribannau – penillion pedair llinell yn yr hen ffurf – sy'n disgrifio ei theimladau wrth ddod yn ôl i Abernodwydd.

*"Ar aelwyd fy mreuddwydion*
*Bu unwaith delynorion*
*A chlywaf eto gain a chân*
*O gylch y tân cysurlon."*

"Mae'n creu naws arbennig i mi, ac yn rhoi blas ar fywyd traddodiadol," ychwanega Rhiain.

**Sain Ffagan**
**Nos Fercher 25 Ebrill, 8.25, S4C**
**Isdeitlau Saesneg ar gael**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a platfformau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru i S4C**

13/04/2023

Bethan Lloyd
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# The St Fagans team gear up for an eventful weekend

For the first time in three years, the St Fagans team are preparing to welcome up to 12,000 visitors to one of the highlights of the museum's calendar – the Food Festival.

In the fourth episode of the S4C series **Sain Ffagan**, which takes a behind-the-scenes look at some of the hidden corners of the National Museum of History, the last-minute preparations for the event are under way.

Ffion Rhisiart, the Events Officer at St Fagans, has the task of coordinating 65 food stalls and 15 craft stalls who are making their way to the festival.

It's been a busy week for the farming team too – as well as hedge and grass cutting, Brian has been organizing one of the many events for children.

"Four cows on top of a trailer – now you don't see that very often!" says Brian, as he takes the "cows" to their new home. The "cows" in question are filled with water, with a bucket placed underneath, so children can try their hand at milking.

There are many other activities to try in the festival grounds including butter making, circus skills, and an exhibition of old tractors.

With the sun making a welcome appearance, thousands have flocked to the Food Festival at Sain Fagans.

"When you open the doors, you never really know how many visitors are going to come, so it's wonderful to see so many people here," says Nia Williams, Director of Education and Public Programmes at St Fagans.

In this episode we also get to see how the work is progressing on the Vulcan Hotel, a well-known pub from an industrial area in Cardiff. It was registered as a public house in 1853 and demolished in 2012.

The work of rebuilding the pub in St Fagans began in 2019 and is scheduled to finish by next spring. This time, the workers are taking advantage of the dry weather to re-slate the roof with slates from Penrhyn Quarry.

Dafydd Wiliam, the Principal Curator of Historic Buildings, will also visit Swansea College of Art which has been repairing the Vulcan's stained glass windows. Glass technician Zoe Bolton has

been tasked with creating a logo for the William Walter Nell brewery from 1915 to replace the Brains logo.

"It's exciting to see the windows taking shape," said Dafydd Wiliam. "It is important for us to make sure that the new glass is slightly different to the original glass so that future experts can clearly see the work we have done, and that people can read the history of the building."

Also in this episode, harpist Rhiain Bebb will visit her great grandfather's home, Abernodwydd Farmhouse, which is one of the fifty historic buildings in St Fagans.

"I've lived in Abernodwydd and coming here gives me a certain thrill," says Rhiain, who has paid tribute to her ancestors by giving the name Abernodwydd to one of her musical compositions.

"Coming here recreates a certain feeling for me and gives a taste of a bygone era," adds Rhiain.

**Sain Ffagan**
**Wednesday 25 April, 8.25, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**